# GOFAL Darllen

## Golwg Fanwl ar Lythrennedd

Blaenlythrennau'r disgybl:

Dyddiad geni:

Ysgol:

Cynnwys:

- D1. Darllen geiriau unigol graddedig
- D2. Cyflymdra darllen A a B
- D3. Enwi cyflym

| **D1: Darllen Geiriau Unigol A** | |
|---|---|
| Cyfanswm | |

| **D2: Darllen Geiriau Unigol B** | |
|---|---|
| Cyfanswm | |

| **D3: Darn Darllen A (Taith yr Urdd)** | |
|---|---|
| Amser a gymerwyd (eiliadau) | |
| Nifer o wallau | |

| **D4: Darn Darllen B (Uwd)** | |
|---|---|
| Amser a gymerwyd (eiliadau) | |
| Nifer o wallau | |

| **D5: Enwi Cyflym** | |
|---|---|
| **Llythrennau**: amser a gymerwyd (eiliadau) | |
| **Rhifau**: amser a gymerwyd (eiliadau) | |

## D1. Darllen geiriau unigol

Bydd angen y daflen Darllen Geiriau Unigol A (disgybl) arnoch.

Dwedwch:

*"Dwi'n mynd i ddangos rhestr o eiriau i ti a dwi eisiau i ti ddarllen y geiriau i fi. Gelli di ddefnyddio dy fys i gadw dy le os wyt ti eisiau. Os wyt ti'n gwneud camgymeriad, gelli di gywiro dy hun a phan wyt ti'n cyrraedd gair anodd, rho gynnig arni, ond os yw'n rhy anodd symuda ymlaen i'r gair nesaf. Wyt ti'n barod?"*

| Eitem | | Ymateb | Eitem | | Ymateb | Eitem | | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | dim | | 12 | cynradd | | 23 | cynghori | |
| 2 | ardal | | 13 | oed | | 24 | ysgrifenedig | |
| 3 | cynnig | | 14 | swyddog | | 25 | rheolaidd | |
| 4 | cyffrous | | 15 | gall | | 26 | hyrwyddo | |
| 5 | prifysgol | | 16 | siopa | | 27 | ymwneud | |
| 6 | bwrdd | | 17 | gwerthfawr | | 28 | arweinydd | |
| 7 | byd | | 18 | gwag | | 29 | uniongyrchol | |
| 8 | cynnwys | | 19 | tywydd | | 30 | gwreiddiol | |
| 9 | ymddangos | | 20 | annisgwyl | | 31 | comisiynydd | |
| 10 | disgybl | | 21 | cefnogaeth | | 32 | angenrheidiol | |
| 11 | dwyn | | 22 | marchnad | | 33 | cydymffurfio | |
| ***Rhowch 1 marc am bob ateb cywir.*** | | | | | | | ***Cyfanswm*** | |

## D2. Darllen geiriau unigol B

Bydd angen y daflen Darllen Geiriau Unigol B (disgybl) arnoch.

Dwedwch:

*"Dwi'n mynd i ddangos rhestr arall o eiriau i ti a dwi eisiau i ti ddarllen y geiriau i fi, yn union fel y tro diwethaf. Gelli di ddefnyddio dy fys i gadw dy le os wyt ti eisiau. Os wyt ti'n gwneud camgymeriad, gelli di gywiro dy hun a phan wyt ti'n cyrraedd gair anodd, rho gynnig arni, ond os yw'n rhy anodd symuda ymlaen i'r gair nesaf. Wyt ti'n barod?"*

| Eitem | | Ymateb | Eitem | | Ymateb | Eitem | | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | mis | | 12 | amlwg | | 23 | dwyieithog | |
| 2 | llaw | | 13 | coed | | 24 | angenrheidiol | |
| 3 | person | | 14 | swyddfa | | 25 | gweithredol | |
| 4 | cynnes | | 15 | llaw | | 26 | cynhyrchu | |
| 5 | perthynas | | 16 | doniol | | 27 | rhestr | |
| 6 | gardd | | 17 | mentro | | 28 | digwyddiad | |
| 7 | hyd | | 18 | blaen | | 29 | buddugol | |
| 8 | cynnig | | 19 | cynllun | | 30 | amrywiaeth | |
| 9 | darganfod | | 20 | ariannol | | 31 | rhyngwladol | |
| 10 | erthygl | | 21 | trafodaeth | | 32 | anghyfreithlon | |
| 11 | llwyd | | 22 | enghraifft | | 33 | gwahaniaethu | |
| ***Rhowch 1 marc am bob ateb cywir.*** | | | | | | | ***Cyfanswm*** | |

## D3. Cyflymdra darllen Darn A

* *Gweler y canllaw am fanylion marcio'r prawf*

Bydd angen Darn Darllen A arnoch (Urdd).

***Dwedwch:***

*"Rydw i eisiau i ti ddarllen dau baragraff yn Gymraeg. Darllena ar dy gyflymdra arferol a'r cyfan byddaf i yn ei wneud fydd amseru faint o amser mae'n cymryd i ti ddarllen y ddau ddarn, a gwneud ambell nodyn ar fy nghofnod i. Iawn?"*

**Rho gerdyn Darn Darllen 1 i'r disgybl.**

*"Barod? I ffwrdd a ti."*

**Dechreua'r amseru wrth i'r disgybl ddarllen y gair cyntaf. Mae rhagor o fanylion yn y canllaw.**

Wythnos diwethaf, cafodd disgyblion Blwyddyn 9 groeso cynnes yng Nghanolfan yr Urdd, Caerdydd. Roedd y llety yn gyfforddus, a bu'r arweinwyr yn trefnu gweithgareddau diddorol iawn i ni. Ar Ddydd Mawrth, teithion ni i Ferthyr Tudful. Yno, ymwelon ni â Chastell Cyfarthfa, adeilad trawiadol sydd wedi'i leoli mewn parc hardd. Ymwelon ni hefyd â chartref y cyfansoddwr enwog Joseph Parry, a gwrando ar rai darnau o'i gerddoriaeth, a oedd yn brofiad arbennig iawn. Ar Ddydd Mercher, aethon ni i Big Pit ym Mlaenafon. Roedd yn rhaid i ni wisgo helmedau a goleuadau arbennig cyn mentro i'r twneli. Roedd yn hynod ddiddorol gweld sut roedd y glowyr yn cloddio'r glo â cheibiau, a chlywed straeon am eu bywydau.

## D4. Cyflymdra darllen Darn B

* *Gweler y canllaw am fanylion marcio'r prawf*

Bydd angen Darn Darllen B arnoch (Uwd).

***Dwedwch:***

*"Diolch yn fawr. Nawr rydym am wneud union yr un peth gyda'r darn darllen nesaf. Byddaf i yn mesur faint o amser mae'n cymryd i ti ddarllen y paragraff ac yn gwneud ambell nodyn ar fy nghopi i."*

**Rho gerdyn Darn Darllen 2 i'r disgybl.** *"Barod? Cer / Dos amdani."*

**Dechreua'r amseru wrth i'r disgybl ddarllen y gair cyntaf.**

Pan fydd pobl yn clywed y gair 'uwd', maen nhw'n aml yn meddwl am bowlen o flawd ceirch plaen a llwyd, ond mewn gwirionedd does dim rhaid i uwd fod yn ddiflas o gwbl. Gydag ychydig o ddychymyg, gallwch ei droi'n bryd blasus sy'n rhoi hwb perffaith i'ch bore. Mae uwd yn fwyd iach a rhad. Mae'n llawn ffibr, sy'n dda i'ch corff ac yn gallu helpu mewn sawl ffordd. Mae ymchwil yn dangos bod uwd yn gallu lleihau'r risg o gael diabetes, gostwng lefelau colesterol, a helpu i golli pwysau trwy gadw lefel siwgr gwaed yn sefydlog. Mae uwd hefyd yn gallu rhoi egni ychwanegol, gwella'ch canolbwyntio yn yr ysgol, a helpu'ch corff i gael gwared ar docsinau. Felly, er ei enw fel pryd syml, mae uwd mewn gwirionedd yn ffordd hawdd o wneud eich bore yn fwy iach a llawn egni.

## D5. Enwi Cyflym

Fe fydd angen y taflenni Enwi Cyflym Rhif ac Enwi Cyflym Llythrennau arnoch chi.

**Dangoswch y dudalen ymarfer i'r disgybl.**

*"Edrycha ar y rhifau hyn. Hoffwn i ti eu darllen i fi."*

**Mae'r disgybl yn darllen y 6 rhif ymarfer. Gwiriwch eu bod yn adnabod enwau'r rhifau i gyd.**

**2 5 7 9 3 8**

*"Ar y dudalen hon mae gen i fwy'r o'r un rhifau, wedi ailadrodd. Dechreua yma ar ben y dudalen a gweithia dy ffordd ar hyd y rhesi i'r gwaelod. Dwi am i ti enwi'r rhifau ym mhob rhes mor gyflym ag y gelli di hyd nes cyrraedd y diwedd. Wyt ti'n deall? Iawn, ffwrdd a ti."*

**Dechreuwch amseru yn syth. Stopiwch amseru pan fo'r disgybl wedi dweud y rhif olaf.**

**Rhowch *gylch* o gwmpas pob gwall a *llinell* o dan unrhyw rifau mae'r disgybl yn hepgor.**

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | 3 | 9 | 7 | 5 | 2 | 8 |
| 9 | 5 | 2 | 7 | 3 | 8 | 2 |
| 7 | 2 | 8 | 3 | 9 | 5 | 7 |
| 8 | 5 | 2 | 3 | 9 | 7 | 5 |
| 2 | 9 | 5 | 9 | 7 | 3 | 8 |
| 3 | 7 | 9 | 8 | 2 | 5 | 3 |

**Dangoswch y dudalen ymarfer i'r disgybl.**

*"Edrycha ar y llythrennau hyn. Hoffwn i ti eu darllen i fi."*

**Mae'r disgybl yn darllen y 6 llythyren ymarfer. Gwiriwch eu bod yn adnabod enwau'r llythrennau i gyd.**

w s o m ll ff

*"Ar y dudalen hon mae gen i fwy'r o'r un llythrennau, wedi ailadrodd. Dechreua yma ar ben y dudalen a gweithia dy ffordd ar hyd y rhesi i'r gwaelod. Dwi am i ti enwi'r llythrennau ym mhob rhes mor gyflym ag y gelli di hyd nes cyrraedd y diwedd. Wyt ti'n deall? Iawn, ffwrdd a ti."*

**Dechreuwch amseru yn syth. Stopiwch amseru pan fo'r disgybl wedi dweud y llythyren olaf.**

**Rhowch *gylch* o gwmpas pob gwall a *llinell* o dan unrhyw lythrennau mae'r disgybl yn hepgor.**

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| o | ll | w | s | ff | m | o |
| s | ff | m | ll | w | s | o |
| ll | s | w | ff | o | m | s |
| ff | w | o | s | ll | w | m |
| w | s | ll | m | o | ff | w |
| m | ff | s | o | m | w | ll |

Nodwch y marciau ar dudalen 1.